# Mewnblannu calon artiffisial fel triniaeth bontio cyn trawsblannu ar gyfer methiant y galon deufrentigol anhydrin cam olaf

20 Rhagfyr 2017

Ni cheir llawer o dystiolaeth sy'n dangos pa mor dda y mae'r driniaeth hon yn gweithio na pha mor ddiogel ydyw ar gyfer methiant y galon deufrentigol anhydrin cam olaf. Caiff ond ei defnyddio pan na fydd mathau eraill o driniaeth yn addas ac mae'r person yn aros am drawsblaniad calon. Gellir defnyddio'r driniaeth hon, ond dim ond pan fydd cleifion yn cael eu monitro'n ofalus i weld pa mor dda mae'n gweithio neu a yw wedi achosi problemau.

Mae methiant y galon deufrentigol cam olaf yn golygu nad yw dwy ochr y galon yn ddigon cryf i bwmpio gwaed o amgylch y corff mwyach. Mae mewnblaniad calon artiffisial yn cynnwys tynnu 2 siambr isaf wan y galon a 4 falf y galon a chysylltu dyfais fecanyddol i weithredu yn eu lle. Caiff y ddyfais ei phweru gan fatris neu gyflenwad pŵer allanol. Gellir ei defnyddio ar gyfer pobl sy'n aros am drawsblaniad calon ac sy'n wynebu risg o farw. Y nod yw ymestyn bywyd nes bod calon rhoddwr ar gael.

Gall NHS Choices fod yn fan da i gael gwybod mwy. Mae gan ganllawiau triniaethau ymyriadol NICE fwy o wybodaeth am driniaethau a sut rydym yn eu hasesu.

## A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?

Os cawsoch gynnig y driniaeth hon, dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol drafod yr hyn y mae'n ei olygu, a dweud wrthych am y risgiau a'r manteision. Dylent drafod eich opsiynau gyda chi, a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd, os ydych yn dymuno. Dylai hyn oll ddigwydd cyn y byddwch yn cytuno (rhoi cydsyniad) i

© NICE 2017 All rights reserved. Subject to Notice of rights

gael y driniaeth. Dylech hefyd gael gwybod sut i gael rhagor o wybodaeth am y driniaeth. Darllenwch ragor am wneud penderfyniadau am eich gofal.

**Rhai cwestiynau i feddwl amdanynt**

- Beth yn union yw'r driniaeth hon?
- Beth yw'r manteision posibl? Pa mor debygol ydw i o'u cael?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgil-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio neu os aiff rhywbeth o'i le?
- Beth fydd yn digwydd os nad wyf eisiau'r driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

ISBN: 978-1-4731-2752-4

© NICE 2017 All rights reserved. Subject to Notice of rights